


Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi trosolwg syml a chryno iawn o brif nodweddion proffilau pridd.

### PROFFIL PRIDD

Proffil pridd yw toriad fertigol trwy'r pridd. Fe all ddangos y canlynol:

- Faint o uwchbridd sydd yna.
- Faint o isbridd sydd yna.
- Y math o graig waelodol o bosibl.
- Lefel y tabl dŵr.
- A oes yna unrhyw haenau anhydraidd o fewn yr haenau (panio).

Gelwir y gwahanol haenau llorweddol a ddinoethir yn haenlinau.



**Y prif haenlinau pridd**

### Nodweddion cyffredinol haenlinau pridd

Uwchbridd	Isbridd
<p>Fel arfer yn dywyllach na'r isbridd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n cynnwys lymphiau bychain fel briwision.</li> <li>• Dyma ran fwyaf ffrwythlon y pridd.</li> <li>• Mae'n cynnwys y rhan fwyaf o organeddau'r pridd.</li> <li>• Mae'n cynnwys y rhan fwyaf o sylwedd organig y pridd.</li> <li>• Mae ei liw yn dywyll fel arfer oherwydd presenoldeb y sylwedd organig.</li> <li>• Mae'n cynnwys y rhan fwyaf o wreiddiau'r planhigion.</li> <li>• Gall y dyfnder amrywio o gwpl o gentimedrau i 50cm.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n cynnwys lymphiau mawr.</li> <li>• Mae'n cynnwys rhai organeddau pridd.</li> <li>• Mae'n cynnwys ychydig bach o sylwedd organig, os o gwbl.</li> <li>• Fel arfer yn oleuach o ran lliw nag uwchbridd.</li> <li>• Fe all gynnwys rhai gwreiddiau, sef gwreiddiau coed neu lwyn mawr fel arfer.</li> <li>• Fe all amrywio'n helaeth o ran dyfnder.</li> </ul>

# RHEOLAETH PRIDD AR GYFER GARDDWRIAETHWYR PRIDD SYLWEDD ORGANIG

TAFLEN FFEITHIAU  
FFERM  
DATBLYGU  
CALU  
Ebrill 2010



## SYLWEDD ORGANIG PRIDD

Mae sylwedd organig (SO) yn deillio o weddillion marw a rhannol bydredig planhigion ac anifeiliaid a charthion anifeiliaid.

Mae priddoedd gyda chynnwys SO isel yn dueddol o fod â sefydlogrwydd strwythurol gwael ac yn fwy tebygol o erydu. Fel rheol, mae cynnwys SO uchel mewn priddoedd mawnaidd yn dynodi lefelau is o weithgaredd biolegol a allai fod oherwydd draeniad gwael neu pH isel.

Mae sylwedd organig yn darparu maethion hanfodol i blanhigion pan yn bydredig ac yn brif ffynhonnell nitrogen. Mae cyflwr ffisegol pridd yn gwella'n sylweddol gydag ychwanegiad sylwedd organig. Mewn sefyllfaoedd naturiol, mae sylwedd organig pridd yn cael ei ailgyflenwi trwy'r amser. Mewn ardaloedd amaethyddol, ymyrrir ar y cylch o ailgyflenwi sylwedd organig yn aml a bydd ffrwythlondeb y pridd yn gostwng os na ychwanegir sylwedd organig.

## Chwalfa sylwedd organig yn y pridd

Mae chwalfa sylwedd organig yn gymhleth iawn ac yn cynnwys sawl cyfnod ac amrywiaeth eang o organeddau sy'n byw yn y pridd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pryfed mawr, pruned genwair a thyrchod daear sy'n cyfrannu trwy fwyta anifeiliaid eraill a bwyta gweddillion planhigion byw neu farw. Yna maent yn carthu'r gweddillion.
- Mae ffwngs yn tyfu a bwydo ar garthion a defnyddiau marw eraill. Maent yn chwarae rhan bwysig yn chwalfa defnyddiau coed.
- Mae bacteria yn chwarae rhan ym mhydredd terfynol sylwedd organig, gan ei drosglwyddo yn gemegion syml gan gynnwys maethion y gall y planhigyn eu haildefnyddio.

## Llysieubridd

Ffurir llysieubridd pan fydd sylwedd organig pridd wedi pydru'n llwyr. Mae'n bwysig ar gyfer cynnal ffrwythlondeb a strwythur pridd. Defnydd cyfludiol yw llysieubridd gyda chynneddf i gyfnewid cationau (CCC), fe all wneud cyfraniad o bwys at gadw cationau cyfnewidiadwy, yn enwedig mewn priddoedd gyda chynnwys clai isel. Mae llysieubridd yn glynu at ronynnau mwnol er mwyn cydgasglu pridd ac yn sgil hynny wella rhywiogrwydd.

## Nodweddion llysieubridd

- Y mae'n dywyll iawn o ran lliw ac yn gwrthsefyll pydru pellach.
- Mae'n denu a dal rhai maethion planhigion, gan eu hatal rhag cael eu trwytholchi o'r pridd.
- Fe all ddal 80 – 90% o'i bwysau ei hun mewn dŵr.